

## **Barn yr Aelod Lleol:**

*“Mae’r amgylchiadau sydd wedi dod a rhifau’r disgyblion i lawr, ac felly’n dod a’r ysgol i sylw’r broses yma, wedi bod yn sydyn, a ddim i wneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysg yn yr Ysgol, ac allan o ddwylo’r ysgol.*

*Mae’r adroddiad yn sôn fod y rhifau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ond ddim yn cydnabod y cynnydd yn y niferoedd rhwng 2013 i 2017 (sef cynnydd o 40%), sydd yn dangos fod rhifau yn gallu newid yn sydyn dros ddwy flynedd.*

*Rwyf yn teimlo ei fod yn bwysig amlygu hyn oherwydd fydd yr adroddiad yn un cyhoeddus, ac felly gall rhieni a all anfon disgyblion i Ysgol Abersoch gael yr argraff anghywir fod y sefyllfa yma wedi digwydd oherwydd perfformiad yr ysgol.*

*Mae’n bwysig i’r Aelod Cabinet a’r Adran Addysg fod yn ymwybodol o fy marn a fy mod yn disgwyl i’r Adran ddod a gwahanol opsiynau i’r bwrdd ar y cyd gyda Llywodraethwyr, Staff a Rhieni cyn penderfyniad terfynol ar y mater.*

*Rwyf yn hyderus yn dilyn cyflwyniad gan Swyddogion Adran Addysg yn yr ysgol y bydd hyn yn digwydd.*

*Mae’n debyg fod hyn yn crynhoi fy mhryder.”*